**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into Implementation of education reforms**

**IER 02**
**Ymateb gan: Comisiynydd Plant Cymru**
**Response from: Children's Commissioner for Wales**

---

At: Jayne Bryant AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

Trwy ebost yn unig

7fed Gorffennnaf 2022

Annwyl Jayne Bryant,

Rwy'n croesawu'r ymchwiliad a lansiwyd yn ddiweddar gan eich Pwyllgor i weithredu diwygiadau addysg. Mae arwyddion bod y newidiadau deddfwriaethol eisoes wedi arwain at symudiad oddi wrth ddulliau hanesyddol o ddylunio'r cwricwlwm, asesu a darparu cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac fe allai rhoi'r diwygiadau hyn ar waith gael effeithiau sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc.

Yn ôl yr hyn rwy'n deall, bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal ar hyd tymor y Senedd, ac rwy'n bwriadu cyfrannu'n llawnach at eich tystiolaeth yn y man, pan fydd gan fy swyddfa sylfaen ehangach o dystiolaeth yn sail ar gyfer ein hasesiad o'r gweithredu a'i effeithiau. Bydd fy ymgynghoriad cenedlaethol: *Gobeithion i Gymru*, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, a bydd hefyd yn casglu barn a phryderon gweithwyr proffesiynol a rhieni. Gallai tystiolaeth a gasglwyd o'm gwasanaeth gwaith achosion yn ystod y cyfnod nesaf hefyd amlygu meysydd lle gall polisi neu ymarfer wella. Rwy'n edrych ymlaen at gyfleoedd i rannu canfyddiadau perthnasol gyda chi wrth i'r ymchwiliad ddatblygu.

Yn y fan hon, rwy'n rhannu rhai awgrymiadau cychwynnol i helpu i lywio eich ystyriaethau cynnar ynghylch themâu a gweithgareddau ymgysylltu.

Yn gyntaf, rwy'n croesawu eich gwahoddiad cyfredol i ddisgyblion gyflwyno'u barn. Fel y byddech yn disgwyl, rwy'n credu bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn dystiolaeth hanfodol wrth ddeall gwir effaith diwygiadau addysg. Gan gadw hyn mewn cof, hoffwn rannu gyda chi adnoddau newydd eu cyhoeddi sy'n cefnogi cyfranogiad hygyrch. Datblygodd fy swyddfa'r adnoddau hyn i gefnogi dyletswyddau hawliau plant y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol, a lluniwyd y pecyn offer i gefnogi cyfleoedd cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc, mewn modd sy'n cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallai hyn fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer eich ymchwiliad, gan ei fod yn darparu dull o gefnogi pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i rannu eu barn a'u profiadau. Byddai defnyddio'r adnodd hwn

Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

gydag ystod o grwpiau o blant a dargedwyd yn golygu bod modd i'ch ymchwiliad wirio sefyllfa plant yn benodol yng nghyswllt y meysydd thematig rydych wedi'u dewis.

Yn ail, hoffwn groesawu cwmpas eang yr ymchwiliad hwn, sy'n edrych ar weithrediad y ddwy Ddeddf newydd. Mae angen alinio'r gwaith o werthuso Deddfau 2018 a 2021, ac asesu'n barhaus i ba raddau mae'r ddau ddarn yma o ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n eu cefnogi yn cydweithio i newid profiadau plant. Mae fy swyddfa wedi argymell y dull gweithredu hwn i'r Llywodraeth, gan na ddylid gwerthuso'r ddwy Ddeddf ar wahân ar lefel genedlaethol, nac ar lefel leol ac mewn lleoliadau. Os ydyw i adlewyrchu profiad cyfannol plant, mae angen i'r holl werthuso edrych ar sut mae'r diwygiadau hyn yn gweithio yn eu crynswth.

Yn olaf, ar hyn o bryd, hoffwn amlygu hefyd y dyletswyddau o ran hawliau dynol plant a geir yn y ddwy Ddeddf. Roedd fy rhagflaenydd innau fel Comisiynydd, a'r Pwyllgor a'ch rhagflaenodd chi, fel ei gilydd yn argymell yn gryf y dylid cynnwys dyletswyddau o ran hawliau dynol plant yn y ddwy Ddeddf trwy graffu ar y ddeddfwriaeth. Cyflawnodd y galwadau hyn ddyletswydd sylw dyledus i Gonfensiynau'r CU ar Hawliau Plant a Hawliau Pobl ag Anableddau yn Neddf 2018. Rhoddir y ddyletswydd strategol hon, a gyflwynir yn Adrannau 7 ac 8, i gyrff perthnasol, a ddiffinnir yn ôl y ddeddf fel awdurdodau lleol a chyrff GIG.

Mewn perthynas â Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, llwyddodd argymhellion gan y swyddfa hon a'r Pwyllgor a'ch rhagflaenodd i sicrhau bod dyletswydd Adran 64 ar benaethiaid a chyrff llywodraethu (neu gyfatebol) i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddau gonfensiwn hyn ymhlith yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Gan fod y Pwyllgor a'ch rhagflaenodd wedi chwarae rhan mor allweddol wrth sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer diwygio addysg, byddai hon yn thema hynod berthnasol i ganolbwyntio arni, a byddai'n darparu tystiolaeth a allai fod o ddefnydd i lywio sut caiff hawliau dynol plant eu hadlewyrchu mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth y bydd y Senedd yn eu pasio yn y dyfodol. Hoffwn awgrymu y gallai'r ystyriaethau gynnwys i ba raddau mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth digonol o'r dyletswyddau hyn, a oes angen rhagor o gefnogaeth i sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu gweithredu, a pha effaith mae'r dyletswyddau hyn yn ei chael ar brofiadau plant o'u hawliau.

Mae fy swyddfa wedi cynhyrchu canllawiau i gefnogi cyrff cyhoeddus, arweinwyr ysgol a gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r dyletswyddau hawliau dynol a geir yn y ddwy Ddeddf. Mae [Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru] yn cefnogi hyn ar lefel lleoliad, ac mae [Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol] yn cefnogi'r dyletswyddau strategol sydd gan gyrff cyhoeddus yn sgîl Deddf 2018.

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Wrth i ni ddatblygu a phrofi'r adnoddau hyn yn gynnar yn 2022, daeth yn amlwg nad oedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o ddyletswydd Adran 64 Deddf 2021 ymhlith arweinwyr ysgolion. Roedd hynny'n ddealladwy bryd hynny, o ystyried pwysau aruthrol y pandemig ar leoliadau, ac yng ngoleuni'r ffaith mai newid hwyr i'r ddeddfwriaeth oedd hyn, ac felly nad oedd wedi bod yn rhan annatod o'r cyfnod o greu ar y cyd gydag ysgolion arloesi. Ymddangosai hefyd fod rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ar yr adeg hon, yn cael trafferth sicrhau capasiti i gyflawni dyletswyddau hawliau plant Deddf 2018; eto, roedd hynny'n ddealladwy ar y pryd, ac fel petai'n adlewyrchu effeithiau'r pandemig a phenderfyniadau i roi blaenoriaethau i rannau eraill o'r ddeddfwriaeth yng nghyfnodau cychwynnol ei gweithredu. Fodd bynnag, wrth i'r gweithredu fynd rhagddo, rhaid i'r dyletswyddau statudol hyn o safbwynt hawliau dynol plant ddod yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth os ydyw i wneud newid sylweddol o ran galluogi hawliau plant yng Nghymru. Rwyf felly'n argymell hyn fel maes ffocws parhaus wrth i'ch ymchwiliad symud ymlaen.

Yn gywir,

Rocio Cifuentes MBE
Comisiynydd Plant Cymru